Abbey a Chris

Rydym wedi bod yn maethu ers 12 mlynedd ac yn ei gael yn hwyl go iawn. Mae'n cyd-fynd yn wirioneddol dda gyda'm gwaith oherwydd ein bod yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ofal byrdymor a seibiant.

Roeddwn wedi meddwl am faethu ers blynyddoedd ond nid oeddwn wedi deall bod prinder gofalwyr maeth pan ddechreuais waith gofal cymdeithasol. Siaradais â'm partner yn ei gylch a phenderfynwyd ei fod yn rhywbeth yr oeddem ein dau eisiau'i wneud. Felly, gwnaethom yr alwad ffôn hollbwysig honno a chamu'n ddewr i fyd newydd.

Rhoddodd ein profiad ein hunain o blant hyder i ni gynnig ein hunain ac, felly, ar ôl siarad â gofalwyr maeth eraill teimlem ei fod yn rhywbeth y gallem ei wneud. Unwaith i ni roi cynnig arno gwelsom ein bod yn ei hoffi ac roedd yr un ifanc cyntaf a ddaeth atom yn cyfateb yn wirioneddol dda.

Daeth maethu â chymaint o hwyl i'n bywydau. Daw'r holl blant â rhywbeth unigryw. Maent yn helpu i chi edrych ar y byd trwy lygaid gwahanol.

Mae'n gwneud i chi sylweddoli sut mae cyflawni hyd yn oed y pethau lleiaf mor bwysig a bod cysylltu â rhywun ifanc yn golygu gymaint. Mae rhoi lle diogel iddynt fod eu hunain a rhoi cip iddynt o fywyd teuluol yn golygu'r byd – dim ond gweld sut fyddwn i gyd yn bwrw iddi gyda'n gilydd ac yn helpu'n gilydd.

Mae mor bwysig cael amser i wneud pethau gyda nhw a bod yn barod i'w cynnwys yn holl weithgareddau eich teulu. Mae ein cyfeillion a theulu'n wych am wneud hyn; bob amser yn prynu anrhegion penblwyddi a Nadolig.

Rydym wedi dysgu gymaint amdanom ni ein hunain trwy faethu ac wedi tyfu mor agos at ein gilydd a sylweddoli ein bod yn gwneud tîm gwych. Mae'n wir wedi bod yn daith ddarganfod. Os ydych yn meddwl amdano, ein cyngor fyddai mynd amdano!